Cyngor Abertawe
Swansea Council

Cyngor Abertawe

Arweiniad Cam wrth Gam i gofrestru i bleidleisio ar-lein



Cam 1

Ewch i:

www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio



Cam 2

Sgroliwch i lawr yna cliciwch ar '**Dechrau nawr**'



Cam 3

- Dewiswch '**Cymru**'
- yna cliciwch '**Parhau**'



Cam 4

- Dewiswch eich cenedligrwydd
- Os oes gennych sawl cenedligrwydd, yna dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol i chi
- yna cliciwch '**Parhau**'



Sylwer:

- Os dewiswch 'Dinesydd gwlad wahanol' yng Ngham 4, yna teipiwch enw'r wlad yn y blwch sy'n ymddangos
- Os oes gennych sawl cenedligrwydd, yna gallwch ychwanegu mwy o wledydd drwy glicio ar '**Ychwanegu gwlad arall**'
- yna cliciwch '**Parhau**'



Cam 5

- Darparwch eich dyddiad geni
- yna cliciwch '**Parhau**'



Cam 6

- Rhowch eich enw cyntaf yn y blwch cyntaf
- Os oes gennych unrhyw enwau canol, yna rhowch nhw yn yr ail flwch. Os na, gadewch yr ail flwch yn wag
- Rhowch eich enw olaf yn y trydydd blwch

- Os nad ydych erioed wedi newid eich enw, yna cliciwch '**Na, nid wyf wedi newid fy enw'**
- Os ydych chi erioed wedi newid eich enw, yna '**Do, rwyf wedi newid fy enw'** – bydd mwy o flychau'n ymddangos fel y gallwch lenwi'ch enw blaenorol.
- Os yw'n well gennych beidio â dweud a ydych wedi newid eich enw ai peidio, yna cliciwch '**Mae'n well gen I beidio dweud'**

- yna cliciwch '**Parhau**'

Cam 7

- Rhowch eich rhif Yswiriant Gwladol – Gallwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol ar eich slipiau cyflog neu lythyrau swyddogol am dreth, pensiynau neu fudd-daliadau
- yna cliciwch '**Parhau**'

Sylwer: Os nad oes gennych rif yswiriant gwladol neu os nad ydych yn gwybod eich rhif yswiriant gwladol, ewch i dudalen 17 y canllaw hwn cyn parhau i'r cam nesaf.





Cam 8

- Rhowch eich Côd Post
- yna cliciwch '**Chwilio am gyfeiriad**'

Cam 9

- Dewch o hyd i'ch cyfeiriad yn y rhestr sy'n ymddangos
- yna cliciwch '**Parhau**'

Sylwer: Os na allwch ddod o hyd i'ch cyfeiriad yn y rhestr, gwnewch yn siŵr bod eich côd post wedi'i nodi'n gywir.

Os na allwch ddod o hyd i'ch cyfeiriad o hyd gyda'ch côd post cywir, yna cliciwch ar '**Nid wyf yn gallu gweld fy nghyfeiriad yn y rhestr'** fel y gallwch ychwanegu eich cyfeiriad â llaw



Cam 10

- Os ydych chi'n byw yn y cyfeiriad rydych chi wedi'i ddarparu yng Ngham 9 yn unig yna cliciwch '**Nac ydw**'
- Os ydych chi hefyd yn byw mewn ail gyfeiriad yna cliciwch '**Ydw, rwy'n byw mewn dau gartef**'
- Os ydych chi'n fyfyriwr ac mae gennych gyfeiriad cartref ac yn ystod y tymor, yna cliciwch '**Ydw, rwy'n fyfyriwr a chyfeiriad cartref a chyfeiriad yn ystod y tymor**'
- yna cliciwch '**Parhau**'

Sylwer: os ydych am gofrestru i bleidleisio mewn dau gyfeiriad gwahanol, yna gallwch gyflwyno cais ar wahân ar gyfer pob cyfeiriad



Cam 11

- Os nad ydych wedi symud o gyfeiriad arall yn ystod y 12 mis diwethaf, yna cliciwch '**Nac ydw**' – Ewch i Gam 12 yr arweiniad hwn
- Os ydych wedi symud yn barhaol o gyfeiriad arall yn y DU ac yn dymuno i'ch manylion gael eu tynnu o'r cyfeiriad hwnnw, yna cliciwch '**Ydw, o gyfeiriad yn y DU**'
- Os ydych wedi symud yn barhaol o gyfeiriad arall y tu allan i'r DU , yna cliciwch **'Ydw, o dramor**'
- yna cliciwch '**Continue**'

Sylwer:

- Os dewisoch "**Ydw, o gyfeiriad yn y DU**' yng ngham 11, yna rhowch gôd post y cyfeiriad y symudoch ohono'n barhaol i ddod o hyd i'ch cyfeiriad o restr fel y gwnaethoch yng Ngham 9.



Sylwer:

- Os dewisoch '**Ydw, o dramor**' yng Ngham 11, ac roeddech wedi cofrestru i bleidleisio yn y DU pan oeddech chi dramor, dewiswch '**Ydw**' a chlicio '**Continue**' ddarparu'r cyfeiriad yr oeddech wedi cofrestru i bleidleisio ynddo pan oeddech dramor.

- Os dewisoch '**Ydw, o dramor**' yng Ngham 11 ac nid oeddech wedi cofrestru i bleidleisio yn y DU pan oeddech dramor, dewiswch **'Nac ydw'** a chlicio '**Continue**'



Cam 12

Nawr mae gennych yr opsiwn i benderfynu a ydych yn dymuno i'ch manylion fod ar gael ar y 'Gofrestr Agored' ai peidio.

Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru enw a chyfeiriad pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio.

Mae 2 fersiwn o'r gofrestr etholiadol:

1. 'Y Fersiwn Lawn'
2. 'Y Gofrestr Agored' – mae'r fersiwn hon o'r gofrestr yn agored i unrhyw un sydd am brynu copi

Nid yw dewis peidio â chael eich cynnwys yn y gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio

- Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad ymddangos yn y gofrestr agored, yna ticiwch y blwch wrth ymyl '**Nid oeddwn eisiau i fy enw a fy nghyfeiriad ymddangos yn y gofrestr agored**' ☑
- Os ydych chi'n hapus i'ch enw a'ch cyfeiriad ymddangos yn y gofrestr agored, yna gadewch y blwch heb ei dicio ☐

- yna cliciwch '**Parhau**'





Cam 13

Nawr mae gennych yr opsiwn i benderfynu a ydych am wneud cais am bleidlais bost

Os ydych yn dymuno pleidleisio drwy'r post yna byddwch yn derbyn papur pleidleisio naill ai i'ch cyfeiriad neu i'ch cyfeiriad e-bost

Gall unrhyw un wneud cais am bleidlais bost. Does dim angen i chi roi rheswm.

Os nad ydych yn siŵr a ydych am gael pleidlais bost, gallwch gwblhau eich cofrestriad nawr a gwneud cais am bleidlais bost yn nes ymlaen

- Os ydych yn dymuno pleidleisio'n bersonol, yna cliciwch '**Nac ydw, mae'n well gennyf bleidleisio'n bersonol**'
- Os ydych eisoes wedi gwneud cais am bleidlais bost, yna cliciwch '**Nac ydw, mae gennyf bleidlais bost eisoes**' – Sylwer: os ydych wedi symud cyfeiriad, yna mae angen i chi ailymgeisio am bleidlais bost
- Os hoffech wneud cais am bleidlais bost, yna cliciwch **'Ydw, anfonwch ffurflen gais pleidlais bost ataf'** a dewiswch a ydych am ei derbyn drwy e-bost (cliciwch '**Drwy e-bost**') neu drwy'r post (cliciwch '**Drwy'r post**').

- yna cliciwch '**Parhau**'



Cam 14

Gallwch ddarparu'ch rhif ffôn cyswllt a'ch cyfeiriad e-bost yn awr.

Bydd eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost yn cael eu cadw gan y Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn eich cyngor lleol (Cyngor Abertawe os ydych yn cofrestru i bleidleisio yn Abertawe) yn unig, a chysylltir â chi dim ond os bydd angen rhagor o wybodaeth arnynt am eich cofrestriad ac i anfon cadarnhad atoch (drwy e-bost). Ni fydd eich rhif ffôn na'ch cyfeiriad e-bost yn cael eu defnyddio at ddibenion marchnata nac unrhyw ddibenion eraill.

- Os ydych yn hapus i'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol yng Nghyngor Abertawe gysylltu â chi dros y ffôn, os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am eich cofrestriad, yna rhowch eich rhif ffôn yn y blwch o dan '**Cysylltwch â mi dros y ffôn**'

- Os hoffech dderbyn e-bost cadarnhau ac os ydych yn hapus i'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol yng Nghyngor Abertawe gysylltu â chi drwy e-bost os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am eich cofrestriad, yna rhowch eich rhif ffôn yn y blwch o dan '**Cysylltwch â mi trwy e-bost**'

- yna cliciwch '**Parhau**'



Cam 15

Gallwch wirio'r holl wybodaeth a ddarparwyd gennych yn awr i sicrhau nad oes unrhyw wallau.

Os ydych chi'n sylwi ar unrhyw beth y mae angen i chi ei newid yna cliciwch ar '**Newid**' ar bwys y maes yr hoffech ei olygu

Unwaith y byddwch yn hapus bod yr holl wybodaeth yn gywir, cliciwch '**Parhau**'



Cam 16

Gallwch anfon eich cais yn awr.

Drwy anfon eich cais rydych yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn wir.

Efallai bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu ag adrannau eraill y llywodraeth i wirio pwy ydych chi a bod gennych hawl i gofrestru i bleidleisio.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff eich data ei drin, yna gallwch glicio ar y ddolen '**sut rydym yn trin eich data**'

Os byddwch yn rhoi gwybodaeth ffug yn eich cais yn fwriadol, gallech fynd i'r carchar am hyd at 6 mis neu gael dirwy.

Os ydych chi'n hapus eich bod wedi darparu'r holl wybodaeth gywir, ac yn derbyn yr uchod i gyd yna cliciwch ar '**Yr wyf yn derbyn – anfon fy nghais'** i anfon eich cais.



Rydych bellach wedi cyflwyno'ch cais a bydd eich cyfeirnod yn cael ei arddangos ar y sgrîn.

Os ydych wedi darparu cyfeiriad e-bost byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau.

Os nad ydych wedi darparu cyfeiriad e-bost byddwch yn derbyn llythyr yn y post o fewn 10 niwrnod. Os cynhelir etholiad yn Abertawe, yna gallai gymryd mwy o amser.

Os hoffech gysylltu â'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol yng Nghyngor Abertawe, yna cliciwch ar y ddolen '**Swyddfa Gofrestru Etholiadol leol (bydd y ddolen yn agor mewn ffenestr newydd)**.'

Os nad ydych yn gwybod eich Rhif Yswiriant Gwladol cliciwch ar '**Nid wyf yn gwybod fy rhif Yswiriant Gwladol**.'



- Os ydych chi'n gwybod bod gennych rif Yswiriant Gwladol ond bod angen help arnoch i ddod o hyd iddo, cliciwch ar '**Mae angen cymorth arnaf i ddod o hyd i fy Rhif Yswiriant Gwladol**'

- Bydd tab newydd yn agor gan esbonio ffyrdd gwahanol y gallech gael eich rhif Yswiriant Gwladol







- Os na allwch ddarparu rhif Yswiriant Gwladol am ba reswm bynnag, yna cliciwch ar '**Nid wyf yn gallu darparu rhif Yswiriant Gwladol**'

- Yn y blwch sy'n ymddangos eglurwch pam na allwch ddarparu rhif Yswiriant Gwladol, er enghraifft: *'Nid oes gennyf rif Yswiriant Gwladol, ond gallaf ddarparu copïau o'm dogfennau adnabod drwy'r post'*

- Os oes gennych gyfeiriad e-bost yna rhowch ef yn y blwch hwn, mae hyn yn ddewisol, ond bydd yn ei gwneud yn haws cysylltu â chi